Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cwrt Henri
# Dryslwyn
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA32 8RX

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Cwrt Henri ym mhentref Dryslwyn, Sir Gaerfyrddin.

Mae 47 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth oed cymysg. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn ar ddechrau tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae 19% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy’n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Daw tua 18% o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a’r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae oddeutu 6% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol is na’r ffigwr cenedlaethol.

Penodwyd y Pennaeth ym mis Medi 2008 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill, 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Cwrt Henri yn 2014-2015 yn £3,689 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Gynradd Cwrt Henri yn y 50fed safle o’r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson uwch nag ysgolion tebyg ar y lefel ddisgwyliedig
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Bod holl ddisgyblion yr ysgol yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth werthfawr gan yr ysgol
- Bod aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn gwneud penderfyniadau effeithiol sy'n dylanwadu'n fuddiol ar wella'r ddarpariaeth i'r disgyblion eraill
- Bod yr ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus
- Bod gan yr ysgol ethos cynhwysol sy'n croesawu pob plentyn, beth bynnag fo'u gallu, rhyw, hil neu gefndir
- Rhoddir pwyslais cadarn ar hyrwyddo cydraddoldeb ymysg y disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth briodol ar gyfer datblygu'r ysgol sydd yn canolbwyntio'n effeithiol ar ethos yr ysgol a datblygu medrau'r disgyblion
- Bod y llywodraethwyr yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol
- Bod perthynas gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion
- Bod yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon trwyadl ar gyfer arfarnu ei chryfderau a meysydd i'w datblygu
- Nid yw'r ysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf
- Nid yw cyfeiriad strategol yr ysgol yn ffocysu'n ddigonol ar godi safonau uwch y disgyblion ac ar wella'r ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Sefydlu strwythur effeithiol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau ar draws yr ysgol

A2 Codi deilliannau uwch disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A3 Sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau

A4 Gwella'r addysgu er mwyn sicrhau her briodol i bob disgybl

A5 Sefydlu prosesau asesu i olrhain cynnydd disgyblion gan gynnwys trefniadau cyson i helpu disgyblion wybod sut i wella'u gwaith

**Rhoi ysgol yn y categori monitro gan Estyn**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol y disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol yn y dosbarthiadau gan alw i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu arno yn llwyddiannus. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwiliol yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau llafar bron pob disgybl o safon dda ac maent yn sgwrsio'n hyderus gydag oedolion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg, ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Gallant drafod cynnwys eu llyfrau yn fanwl gan fynegi barn am eu hoff gymeriadau a digwyddiadau, gan arddangos dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio arddulliau gwahanol wrth ysgrifennu at ddibenion amrywiol. Mae lleiafrif o'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn dechrau cynnal, datblygu ac ymestyn eu syniadau wrth gyflwyno darnau dychmygus, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr yn disgrifio eu profiadau fel marchog castell. Ar y cyfan, anghyson yw safon llawysgrifen rhan fwyaf y disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn medru darllen yn ystyrlon gyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Gall y mwyafrif o'r disgyblion drafod eu hoff lyfrau ac awduron yn hyderus. Mae uwch fedrau darllen y mwyafrif o ddisgyblion yn dda ac mae eu gallu i gip ddarllen gwybodaeth ffeithiol er mwyn canfod y prif ffeithiau, yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ar lafar. Maent yn siarad yn glir ac yn estynedig am eu gwaith a defnyddiant iaith naturiol raenus mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Yn gyffredinol, caiff ysgrifennu'r disgyblion ei strwythuro'n briodol ac mae rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu at bwrpasau gwahanol mewn arddulliau addas. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig yn Gymraeg ac yn cynhyrchu gwaith o safon sydd yn gyson dda, er enghraifft wrth gofnodi helyntion Merched Beca mewn adroddiad papur newydd. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml yn Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn haneru neu'n dyblu rhifau ac yn datrys problemau syml yn gywir. Mae'r mwyafrif yn cryfhau eu dealltwriaeth o arian ac yn datblygu dealltwriaeth o ddefnyddio cyfesurynnau i leoli adeiladau yn yr ardal leol.
Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gweithgareddau rhif annibynnol ar draws yr ysgol yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o

strategaethau i ddatrys problemau rhif. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion, ac yn darllen graddfeydd ar graffiau syml. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn grŵp blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen wedi symud yr ysgol o'r 25% uchaf i'r 50% is mewn llythrennedd. Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch wedi aros ar y cyfan yn y 25% isaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

O gymharu ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, mae perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi aros yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad Cymraeg wedi gostwng i'r 50% isaf a pherfformiad mathemateg wedi gostwng i'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryder. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd ei angen i gadw'n iach a phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn gyson.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn llawer o'r gwersi. Maent yn awyddus i ddysgu ac yn arddangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw medrau llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n llawn. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion o amgylch yr ysgol yn dda iawn ond nid yw hyn yn gyson ym mhob gwers. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion.

Cyfranna'r holl ddisgyblion yn effeithiol i weithgareddau amrywiol yn yr ysgol i gefnogi elusennau ac i fynychu'r clybiau allgyrsiol. Mae'r cysylltiadau agos â'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol; er enghraifft, wrth berfformio i ddisgyblion y Feithrin a chymryd rhan mewn gweithgareddau Nadolig y pentref.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn gwneud penderfyniadau effeithiol sy'n dylanwadu'n dda ar wella'r ddarpariaeth i'r disgyblion eraill. Ar hyn o bryd, maent yn cynhyrchu arddangosfa allan o hen wisg ysgol sy'n datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o agweddau o fentergarwch ac ailgylchu yn dda.

Mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol am y pedair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n ysgogi a chynnal diddordeb y disgyblion ar draws y cyfnodau dysgu yn llwyddiannus. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd yn ysbrydoli'r disgyblion yn effeithiol ac yn cynnig profiadau cadarn iddynt. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon manwl i sicrhau cysondeb a dilyniant ar gyfer holl agweddau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio i fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae yna gyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn meysydd eraill yn llai effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg yn gadarn. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a diwylliant Cymru yn datblygu'n effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am agweddau ar hanes Cymru; er enghraifft, maent yn dysgu am fordaith y Cymry i Batagonia. Mae ystod o ymweliadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r cyngor eco yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am gynaliadwyedd, ailgylchu ac arbed ynni yn dda. Ceir darpariaeth foddhaol i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn fodelau iaith cadarn i ddisgyblion. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Ble mae'r addysgu ar ei orau, mae'r sesiynau wedi eu cynllunio'n ofalus ac yn cynnwys amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau a'u dealltwriaeth. Mewn mwyafrif o wersi, lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflymder y gwersi yn araf, ac mae disgyblion yn colli diddordeb. Mae lleiafrif yr athrawon yn gor-arwain y dysgu ac nid ydynt yn addasu'r dysgu yn ddigon effeithiol i herio pob disgybl yn briodol.

Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Ar ei orau, mae adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ynghylch yr hyn y maent wedi ei gyflawni a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw ansawdd sylwadau'r athrawon yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio’n briodol, ond prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a’u cyfoedion. Mae athrawon yn cofnodi canlyniadau asesiadau a thasgau penodol pob disgybl yn briodol a gwneir defnydd addas o’r data i osod targedau ac i gynllunio strategaethau ymyrraeth pwrpasol.

Mae’r adroddiadau blynyddol i rieni yn cyflwyno gwybodaeth fuddiol iddynt ar gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Caiff yr agweddau hyn eu cefnogi’n effeithiol gan ymweliadau asiantaethau eraill. Er enghraifft, mae gweithwyr iechyd proffesiynol a swyddogion cyswllt yr heddlu yn cefnogi gwaith yr ysgol wrth ddarparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol. Mae’r ysgol yn gwenud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r sesiynau cydaddoli dyddiol yn cefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn lwyddiannus ac yn hybu parch a sensitifrwydd tuag at eraill. Mae gweithgareddau ar y cyd gyda’r capel ac eglwys leol yn atgyfnerthu hyn ymhellach.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu’n brydlon a phwrpasol. Mae pob disgybl yn cyfrannu’n effeithiol tuag at eu targedau yn y cynlluniau addysg unigol ac yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw’r cyfarfodydd ar gyfer trafod cynnydd gyda’r rhieni yn digwydd yn ddigon rheolaidd. Mae aelodau’r staff yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol er lles y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chymunedol sy’n croesawu pob plentyn, beth bynnag fo’u gallu, rhyw, hil neu gefndir. Mae naws groesawgar a chynnes lle mae’r oedolion a’r disgyblion yn ymdrin â’i gilydd gyda pharch a gofal. Caiff pob disgybl eu hannog gan y staff i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Rhoddir pwyslais cadarn ar hyrwyddo cydraddoldeb ymysg y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da er mwyn cyfoethogi’r dysgu tu fewn i’r adeilad a thu allan, a gwneir defnydd priodol ohonynt. Mae’r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio’n bwrpasol i hybu’r dysgu. Mae darn o dir o amgylch yr ysgol wedi ei ddatblygu’n effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddilyn rhai argymhellion y cyngor ysgol. Er enghraifft, mae ardal natur wedi’i chreu i dyfu planhigion a llysiau ac i ddenu adar gwyllt.

Mae’r adeilad o ansawdd da a gwneir defnydd priodol o’r cyfleusterau sydd ar gael. Mae arddangosfeydd priodol sy’n hybu dysgu effeithiol ond prin yw enghreifftiau o waith y disgyblion. Mae'r safle a’r adeilad yn ddiogel ac yn cael eu cadw’n lân a graenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth briodol ar gyfer datblygu'r ysgol sydd yn canolbwyntio'n effeithiol ar ethos yr ysgol a datblygu medrau bywyd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'n ffocysu'n ddigonol ar ddatblygiad strategol yr ysgol.; er enghraifft, wrth sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio a'r gyfer gwella yr ysgol yn arwain at welliannau.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn eu lle ac yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n briodol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn dechrau cael effaith bwrpasol ar y ddarpariaeth a safonau. Mae'r staff yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn nodi'r prif benderfyniadau a wnaed neu'r camau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn golygu nad yw effaith gwelliannau'n cael ei mesur yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad parhaus y staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â rhai blaenoriaethau lleol a chenedlaethol; er enghraifft, mae wedi cychwyn ymgyrffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd sydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig ar fedrau llythrennedd disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau penodol i wella lles a chyflawniad disgyblion mwy bregus.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson drwy adroddiadau'r pennaeth ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg. Yn fwy diweddar, mae'r llywodraethwyr wedi edrych yn benodol ar agweddau o'r ddarpariaeth gan gymryd rhan weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu yn ddiweddar. Nid yw'r gweithdrefnau'n ddigon trwyadl ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol wedi defnyddio tystiolaeth uniongyrchol sydd yn cynnwys dadansoddi data perfformaid disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwersi a gwneud defnydd o holiaduron ar gyfer rhanddeiliaid. Serch hynny, nid yw'r arweinwyr yn ymateb i'r canfyddiadau yn ddigon effeithiol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd gan y pennaeth, er yn ddisgrifiadol, yn rhoi darlun cyfredol o'r ysgol. Mae'n nodi cryfderau'r ysgol ond prin yw'r cyfeiriad tuag at agweddau sydd angen eu gwella. Adlewyrchir hyn yn y cynllun datblygu ysgol presennol lle mae nifer o flaenoriaethau yn cael eu adnabod, ond nid oes digon o ffocws ar safonau disgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu, meini prawf, amserlen, cyfrifoldebau a chostau addas; ond nid oes cyfeiriad at yr hyn sydd yn ddisgwyliedig o ran cyraeddiadau'r disgyblion. Mae arweinwyr yn adolygu blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol ond nid yw'n glir sut mae prosesau hunanarfarnu wedi arwain at lunio y blaenoriaethau cyfredol ar gyfer yr ysgol.

Nid yw'r ysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Er enghraifft, does dim cynllun hir dymor gan yr ysgol ar gyfer datblygu medrau allweddol nac ar gyfer datblygiad medrau technoleg gwybodaeth y disgyblion. Nid yw'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn ymateb yn briodol i anghenion pob disgybl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni, sy'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r disgyblion. Nodwedd dda o'r bartneriaeth hon yw'r gefnogaeth effeithiol a gynigir iddynt yn ddiweddar i ddeall mentrau newydd ar gyfer addysgu rhifedd. Mae'r cyfle i dreulio diwrnod gyda'u plant yn rhannu eu profiadau nhw mewn gwersi amrywiol yn cynnig gwybodaeth gwerthfawr am faterion cwricwlaidd. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol. Maent hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau codi arian, er enghraifft ar gyfer prynu adnoddau technoleg gwybodaeth a hefyd i wella'r ardal allanol.

Mae cyswllt cadarnhaol gyda'r cylch meithrin lleol sy'n cynorthwyo'r broses o drosglwyddo yn effeithiol. Mae trefniadau cynhwysfawr yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd er mwyn i ddisgyblion blwyddyn 6 drosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn esmwyth. Mae'r ysgol yn trefnu i ymweld â'r ysgol uwchradd yn achlysurol i dderbyn gwersi gymnasteg i gefnogi'r agwedd hon o'r cwricwlwm yn addas.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion y clwstwr er mwyn cymedroli gwaith disgyblion a gydag ysgolion gwledig yr ardal i gyflwyno cynllun cwricwlaidd newydd sydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae cysylltiadau agos gan yr ysgol â'r gymuned leol. Mae cyfraniad disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â chyfleoedd i drafod gyda nifer pwrpasol o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn codi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau cymunedol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff addysgu a staff ategol, ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r dysgu ac i roi cymorth priodol i unigolion. Rhoddir cefnogaeth effeithiol i athrawes y Cyfnod Sylfaen gan y cymhorthydd dosbarth. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i'r gofyniad statudol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae'r staff yn derbyn ystod o hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae gan yr ysgol nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sydd yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae'r staff wedi cychwyn cydweithio â dwy ysgol gynradd gyfagos i weithio ar gynllun addysg bersonol a chymdeithasol.

Ar y cyfan, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn dyrannu adnoddau yn effeithiol tuag at flaenoriaethau'r ysgol. Ddefnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn briodol i atgyfnerthu'r ddarpariaeth er mwyn gwella lles a safonau disgyblion penodol. Mae cyllideb gyfredol yr ysgol yn dangos gorwariant bychan. Nid yw hyn wedi cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth. Mae gan y corff llywodraethol gynllun gweithredu manwl i ddelio â'r gorwariant yn effeithiol.

O ystyried y safonau da y mae'r disgyblion yn eu cyflawni, ac agweddau yn ymwneud â datblygu eu lles, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692067 - Ysgol Cwrt Henri**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 44 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 10 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 80.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 80.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 10.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 10 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692067 - Ysgol Cwrt Henri**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 44 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.7 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | * | * | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 71.4 | * | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | * | * | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | * | * | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | * | * | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | * | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 18 | 17<br>94% | 1<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 10<br>59% | 7<br>41% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 17 | 9 | 7 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 53% | 41% | 6% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 11 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 61% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 6 | 10 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 33% | 56% | 11% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 6 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 8 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 17 | 8 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 1 | 10 | 2 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 8% | 77% | 15% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 5 | 10 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 31% | 62% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 11 | 3 | 7 | 0 | 1 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 27% | 64% | 0% | 9% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 16 | 2 | 8 | 3 | 3 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 12% | 50% | 19% | 19% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 17 | 8 | 6 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 47% | 35% | 12% | 6% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 4<br>25% | 8<br>50% | 3<br>19% | 1<br>6% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 18 | 8<br>44% | 9<br>50% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 9 | 4<br>44% | 4<br>44% | 0<br>0% | 1<br>11% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 6<br>38% | 7<br>44% | 3<br>19% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 17 | 8<br>47% | 7<br>41% | 2<br>12% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Dylan Gruffydd Roberts | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Jano Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marc Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.